# 1. Rhagair

Roedd y flwyddyn diwethaf yn well ar gyfer Cronfa Bensiwn Gwynedd, yn bennaf oherwydd perfformiad gwell gan ein rheolwyr ecwiti a'r safiad a gymerwyd gan y Gronfa o ran buddsoddi mewn bondiau. Yng nghyd-destun ein disgwyliadau buddsoddi, mae'r dychweliadau o 8.2% a gafwyd gan y Gronfa yn uwch na'r meincnod 6.3% am y flwyddyn. Mae hyn yn adlewyrchu'r perfformiad gwell gan y rheolwyr ecwiti gweithredol ddaru berfformio'n well na'u meincnodau, fel wnaeth y mandad bondiau absoliwt sydd bellach yn dechrau cyflawni'r disgwyliadau.

Mewn termau cymharol, roedd perfformiad 2013/14 yn sylweddol gwell na'r flwyddyn flaenorol, gyda Chronfa Gwynedd yn y 19eg safle allan o 85 yn nhermau perfformiad wrth gymharu gyda chronfeydd awdurdodau lleol eraill.

Yn gyffredinol, roedd perfformiad y farchnad yn well na'r flwyddyn flaenorol, gydag ecwiti ac eiddo yn perfformio'n dda. Mae ein mandad bondiau ar sail dychweliad absoliwt a tra bod cynnyrch bondiau nawr yn negyddol mae ein dychweliadau ni wedi parhau'n bositif, yn dychwelyd 3.3% dros y flwyddyn (gweler tudalennau 18 i 20 am fanylion).

Roedd asedau'r Gronfa wedi cyrraedd £1,310m ar 31 March 2014, cynnydd o £117m yn ystod y flwyddyn, fel gwelir yn y cyfrifon ar dudalen 24.

Yn ystod 2013/14 cwblhawyd y prisiad actiwaraidd teirblynyddol fel ar 31 Mawrth 2013. Roedd hi'n braf gweld bod y lefel cyllido wedi cynyddu i 85%, sy'n well na'r cyfartaledd 79% yn Lloegr a Chymru. Er hynny, mae'r diffyg wedi cynyddu, sy'n gyffredin ar draws y cronfeydd i gyd. Mae hyn yn bennaf oherwydd codiadau mewn disgwyliad bywyd a lefel isel dychweliadau giltiau ar amser y prisiad.

Gall canlyniadau cyflogwyr unigol fod yn dra wahanol i rheiny'r gronfa gyfan, a cymerwyd hyn i ystyriaeth wrth osod lefelau cyfraniadau. Ar gyfer y prisiant hwn, terfynwyd trefniadau'r pŵl at ddibenion cyfraniadau i gyflogwyr llai, a cyflwynwyd yswiriant er mwyn eu gwarchod rhag y risg o gostau ymddeoliadau cynnar oherwydd tor-iechyd.

Er mwyn gwarchod y Gronfa Bensiwn rhag lleihad mewn cyfanswm cyfraniadau gan gyflogwyr, o Ebrill 2014 mae'r elfen diffyg o gyfraniadau cyflogwyr yn cael ei dalu fel swm arian, yn hytrach na chanran o'r cyflog.

Cafodd y penderfyniadau a wnaethpwyd yn ystod proses y prisiad eu ffurfioli yn y Datganiad Strategaeth Cyllido, roedd wedi'i gylchredeg i'r holl bartïon perthnasol cyn cymeradwyaeth ffurfiol gan y Pwyllgor Pensiynau ym mis Mawrth 2014.

Parhaodd perfformiad effeithiol yr uned weinyddol fel y'i mesurir yn erbyn eu targedau (gweler tudalen 6). Roedd y gwaith cyfathrebu yn allweddol i helpu cyflogwyr gyflwyno'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol newydd o'r 1af Ebrill 2014. Bu gwaith sylweddol er mwyn gweithredu'r systemau newydd i sicrhau trosglwyddiad mor esmwyth â phosib.

Mae hi wedi bod yn flwyddyn brysur i'r Gronfa Bensiwn, gyda nifer o newidiadau ac ymgynghoriadau ar y gweill. Mae'r prosiect cydweithio a ddatblygwyd gan yr wyth cronfa yng

Nghymru wedi cael ei ddisodli gan ymgynghoriad Llywodraeth San Steffan ar gyfleuon i gydweithio, arbedion cost ac effeithlonrwydd. Tra roedd posibilrwydd y byddai opsiwn i uno cronfeydd pensiwn, nid yw hyn wedi cael ei argymell ac mae'r Llywodraeth wedi adnabod y dylai fod yn bosib i gyflawni effeithlonrwydd ac arbedion trwy gydweithio. Mwy annisgwyl oedd y cynnig dylai buddsoddiadau ecwiti i gyd fod yn rai goddefol, yn hytrach na gweithredol, er mwyn arbed costau. Buasai hynny wedi bod yn niweidiol i'r Gronfa hon llynedd. Roedd ein ymateb ni yn cefnogi rhoi'r dewis i gronfeydd gydymffurfio gyda'r cynnig neu esbonio pam penderfynwyd comisiynu rheolaeth gweithredol.

Mae ymgynghoriad pellach ar newidiadau mewn trefniadau llywodraethu ar y gweill. Mae'r rheoliadau drafft yn mynnu bod Bwrdd Pensiynau yn cael ei sefydlu, gyda chynrychiolaeth cyfartal i gyflogwyr a gweithwyr. Gall cynghorwyr etholedig fod yn aelodau'r Bwrdd hefyd, ond dim mwy na'r nifer cynrychiolwyr eraill. Y trefniant presennol ar gyfer Cronfa Bensiwn Gwynedd yw Pwyllgor Pensiynau dan gyfansoddiad Cyngor Gwynedd. Mae'r cyfnod ymgynhori yn cau yng nghanol mis Awst a bydd y Gronfa yn ymateb i'r cynigion.

Hwn yw fy adroddiad olaf fel Cyfarwyddwr Corfforaethol yn gyfrifol am fuddsoddiad strategol y Gronfa Bensiwn, gan y byddaf yn symud i'm swydd newydd fel Prif Weithredwr Cyngor Gwynedd yn yr Hydref. Rwyf wedi mwynhau gweithio ar ran y Gronfa ac rwy'n edrych ymlaen i'w gweld yn tyfu yn y dyfodol.



Dilwyn O. Williams
**Cyfarwyddwr Corfforaethol**

# 2. Adolygiad o’r Flwyddyn

## 2.1 Gweinyddu Pensiynau

### Cyffredinol a Chyflwyniad

Cwblhau prisiadau cronfeydd pensiwn Cymru a Lloegr, trethu croniant pensiwn unigol, a’r ymgynghoriad parhaus ar gario drosodd y gwarchodaethau rheol 85 mlynedd i’r trefniant cyfartaledd cyflog (CARE) newydd oedd y materion a’r pynciau llosg yn ystod y flwyddyn. Am y tro cyntaf, byddai canlyniad prisiadau’r cronfeydd yn mesur rhwymedigaethau ar gyfuniad o groniad cyflog terfynol hyd fis Mawrth 2014 a tybiaethau sy’n seiliedig ar y trefniant CARE newydd. Gyda phopeth arall yn gyfartal, y gobaith yw fod cyflwyno’r cynllun CARE am olygu byddai'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (CPLlL) yn fwy cynaliadwy yn y tymor hwy.

### Prisiad Cronfa Bensiwn Gwynedd 2013

Mae diffygion ariannol y cynllun wedi bod yn bryder am sawl blwyddyn, yn enwedig yn sgil cynnydd parhaus mewn hirhoedledd (disgwyliad bywyd) a lefel isel o gynnyrch ar fondiau, a dychweliadau ar fuddsoddiadau yn llai na’r hyn a ddisgwyliwyd. Yn hanesyddol, mae cyflogwyr llai yng Nghronfa Gwynedd wedi'u pwlio gyda'u gilydd i bennu cyfraddau cyfraniadau cyffredin a rhannu'r risg uchel sy'n gysylltiedig ag amrywiaethau mewn aelodaeth, yn enwedig effaith cost ymddeoliadau tor-iechyd.

Cynhaliwyd cyfres o gyfarfodydd fideo-gynadledda rhwng swyddogion y Gronfa a'r Actwari yn ystod haf 2013 er mwyn pennu, cytuno a gosod tybiaethau ar gyfer y prisiad. Ymgynghorwyd â chyflogwyr ar nifer o faterion, a gofynnwyd i’r cyflogwyr llai yn arbennig i fynychu cyfarfodydd prisiad i drafod canlyniadau cael gwared o’r pŵl a chyflwyno polisi yswiriant salwch.

### Sicrwydd Yswiriant Salwch

Prif anfantais pwlio cyflogwyr llai yw traws-sybsideiddio rhwymedigaethau cyflogwyr. Er mwyn lliniaru hyn, ystyriodd y Gronfa ffyrdd amgen o ymdrin â’r risg oedd yn gysylltiedig ag ymddeol tor-iechyd, sef y prif reswm am bŵlio. Argymhellodd Hymans Robertson bolisi yswiriant, ble y byddai costau’r premiwm yn eithaf cyfartal i’r gostyngiadau yng nghyfraniadau’r cyflogwyr drwy beidio â rhoi sicrwydd am y risg a gâi ei phwlio yn flaenorol. Dechreuodd y polisi yswiriant o 1 Ebrill 2014, gan adael i gyflogwyr unigol gael eu cyfraddau cyfrannu eu hunain, yn seiliedig ar broffil yr aelodau a phrofiad hanesyddol.

### Adennill y Diffyg

Hefyd, codwyd pryderon am newidiadau mewn aelodaeth gweithredol cyflogwyr unigol. Yn hanesyddol, adenillwyd diffygion drwy ychwanegu canran o’r gyflogres ar raddfa croniad y dyfodol yn seiliedig ar dybiaethau am lefelau cyson o aelodaeth. Fodd bynnag, gyda lefelau aelodaeth dan fygythiad o’r hinsawdd ariannol cyfredol, roedd gwir risg na fyddai'r lefel ddisgwyliedig yn cael ei chyrraedd o ran adennill diffygion. Felly, ar gyfer prisiad 2013, gofynnwyd i'r Actwari adnabod diffygion ar delerau arian parod, yn hytrach na chanran o'r gyflogres. O ganlyniad, o 1 Ebrill 2014 roedd cyfraniadau cyflogwyr tuag at y diffygion yn seiliedig ar symiau arian parod misol er mwyn adennill diffygion, a chanran o’r gyflogres i gyfrif am groniad buddion yn y dyfodol. Drwy wneud hyn, byddai’r swm a adenillwyd yn aros yn gyson, beth bynnag fydd lefelau aelodaeth yn y dyfodol.

Aeth yr amserlen prisiad yn gymharol esmwyth, gyda data yn cael ei anfon at yr Actwari ar amser. Roedd canlyniadau cychwynnol ar gael ganol yr hydref a threfnwyd cyfarfod prisiad i gyflogwyr yn Siambr Dafydd Orwig ar 7 Tachwedd 2013. Dosbarthwyd canlyniadau unigol a gwahoddwyd cyflogwyr i holi cwestiynau am unrhyw agwedd o'r prisiad, o ran tybiaethau a chanlyniadau, gydag uwch swyddogion Cronfa Bensiwn Gwynedd a Mr Richard Warden o Hymans Robertson yn bresennol i ateb yn briodol.

**CPLIL 2014 (y cynllun CARE)**

Cyflwynwyd Rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol 2013 gerbron senedd San Steffan ar 19 Medi 2013, ond roedd pryder ynghylch cyflwyno Rheoliadau Trosglwyddo. Ymysg pethau eraill, byddai'r rheoliadau hyn yn sefydlu sut fyddai'r gwarchodaethau "rheol 85 mlynedd", y rhan mwyaf cymhleth o'r cynllun, yn trosglwyddo i'r trefniant newydd.

Cyflwynwyd Rheoliadau Trosglwyddo Drafft ym mis Rhagfyr 2013, ond ni chyflwynwyd fersiwn derfynol a phur wahanol y rheoliadau gerbron Senedd San Steffan tan 10 Mawrth 2014 ac ni dderbyniodd Cyngor Gwynedd gopi ohonynt tan brynhawn y 12 Mawrth 2014, dim ond 19 diwrnod cyn iddynt ddod i rym. Yna, ar 31 Mawrth, derbyniwyd y set gyntaf o wyth canllaw actwaraidd, gyda mwy i ddilyn.

Gan y derbyniwyd y rheoliadau trosglwyddo mor hwyr, nid oedd modd i'n meddalwedd ni gyfrifo amcangyfrifon ymddeoliad yn gywir, ac arweiniodd hyn at orfod gwneud pethau â llaw tra roedd y feddalwedd yn cael ei diweddaru. Bu'n rhaid dal yn ôl rhag gwneud cyfrifiadau trosglwyddo ac ysgariad hyd nes derbyniwyd canllawiau actwaraidd pellach, a bu'n rhaid gwirio cyfrifiadau syml â llaw, ac achosodd hyn gryn oedi. Ymddiheurwn am unrhyw broblem a achoswyd i gyflogwyr yn sgil hyn.

Rhoddwyd cyflwyniad ar y CPLIL 2014 fel rhan o Gyfarfod Cyffredinol Blynyddol y Gronfa ar 25 Gorffennaf 2013 ac yna cafwyd cyflwyniadau wedi'u diweddaru yn ystod cyfarfod prisiad y cyflogwyr ym mis Tachwedd. Trefnodd a mynychodd Dîm Cyfathrebu'r Gronfa dros 150 o gyflwyniadau dwyieithog i weithwyr rhwng mis Ionawr a mis Mai 2014, a theithiwyd hyd a lled gogledd Cymru, o Wrecsam yn y dwyrain i Bwllheli yn y gorllewin, ac o Gaergybi yn y gogledd i Ddolgellau yn y de. Amcangyfrifir bod oddeutu 2,500 wedi mynychu'r cyflwyniadau hyn. Diweddarwyd gwefan y Gronfa yn ystod y cyfnod yn arwain at 1 Ebrill i ddarparu gwybodaeth estynedig i gyflogwyr ac aelodau. Roedd hyn yn cynnwys ffurflenni, dogfennau, taflenni a llyfrynnau newydd, ac fe ddosbarthwyd llawer ohonynt fel copïau caled hefyd. Hoffwn ddiolch i staff yr Uned am eu gwaith caled a'u hymroddiad cydwybodol yn ystod blwyddyn y prisiad, ac yn enwedig wrth baratoi am y CPLIL 2014.

**Treth ar Bensiwn Unigol**

Gwelwyd cynnydd mewn ymholiadau a cheisiadau am wybodaeth yn sgil y gostyngiad parhaus mewn lwfansau ar gyfer croniad pensiwn blynyddol a chroniad pensiwn hyd oes. Yn ystod 2014/15, bydd y lwfansau hyn yn gostwng ymhellach i £40,000 a £1.25m yn ôl eu trefn, a disgwylir y bydd mwy o aelodau yn gorfod talu treth ar eu buddion a bydd hyn yn arwain at fwy o ymholiadau.

**Dadansoddi Demograffeg y Cynllun**

Yn y 18 mlynedd ers ad-drefnu yng Nghymru (1 Ebrill 1996), tyfodd nifer y pensiynau taladwy o 5,043 i 8,323 – cynnydd o 65.04%. Erbyn hyn, gwneir mwy o daliadau misol o'r gyflogres bensiynau nac o'r holl gyflogresi eraill sydd gan Gyngor Gwynedd gyda'i gilydd. Mae'n cynnwys 192 o

bensiynwyr yn y grŵp oedran 90 i 100, gyda chwe aelod arall dros 100 mlwydd oed. Dros y blynyddoedd, gwelwyd cynnydd mawr yn nifer yr aelodau gweithredol ac aelodau gohiriedig. Gweler yn y tabl isod gymhariaeth rhwng adroddiad prisiad 1995 (y flwyddyn agosaf i'r ad-drefnu) ac adroddiad 2013 (y prisiad diweddaraf):

| | 31/03/1995 | 31/03/2013 | % cynnydd |
|---|---|---|---|
| Aelodau Gweithredol | 5,428 | 14,344 | 64% |
| *Pensiynwyr | 4,033 | 7,264 | 80% |
| Aelodau Gohiriedig | 1,198 | 11,000 | 818% |
| Cyfanswm | 10,659 | 32,608 | 206% |

***y tro hwn, nid yw'r nifer o bensiynwyr yn y tabl uchod yn cynnwys cyn-athrawon sy'n derbyn pensiwn cydadferol***

Gan dderbyn bod aelodau sydd â mwy nac un swydd bellach yn cael eu trin â chofnodion ar wahân, mae'r cynnydd mewn aelodaeth gyffredinol yn parhau'n sylweddol, yn enwedig y cynnydd yn yr aelodau gohiriedig. Arweiniodd y nifer o ymddeoliadau cynnar yn ystod ad-drefnu at broffil oedran y gronfa yn mynd yn ieuengach. Erbyn hyn, mae'r aelodau 'iau' hyn yn nesáu at oedran ymddeol neu wedi cyrraedd oedran ymddeol yn barod. Gweler yn y tabl isod nifer yr aelodau gweithredol a gohiriedig yn y grwpiau oedran 50-55 a 55 a throsodd yn y gronfa ym mis Mawrth 2014.

| | Aelodau Gweithredol | Aelodau Gohiriedig | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| Oedran rhwng 50-55 | 2,230 | 1,385 | 3,615 |
| Oedran 55 a throsodd | 2,929 | 1,569 | 4,498 |
| Cyfanswm | 5,199 | 2,954 | 8,113 |

Mae'r ystadegau hyn yn arddangos twf pellach yn nifer y pensiynwyr yn y tymor byr i ganolig. O'r 1af o Ebrill 2014, gall y 4,498 sydd yn y grŵp oedran 55 a throsodd, derfynu eu cyflogaeth a hawlio buddion yn wirfoddol ar unwaith, er y gallant fod yn fuddion gostyngedig.

**Partneriaeth Cymru Gyfan**

Mae trafodaethau yn parhau ar ddyfodol gweinyddiaeth y cynllun, yng Nghymru a Lloegr, gyda phwysau cynyddol am adolygiad cynhwysfawr o drefniadau llywodraethu. O ran gweinyddiaeth yng Nghymru, casglodd adroddiad a gynhyrchwyd yn 2011 bod mwy o ymdrech am gael ei wneud o ran cydweithio. Hyd yma, mae ffrwyth llafur y cydweithio wedi canolbwyntio mwy ar gynhyrchu dogfennau cyson, megis taflenni, llyfrynnau a datganiadau buddion blynyddol ar gyfer y cynllun. Y cam rhesymegol nesaf fydd ystyried safoni arferion gwaith a thargedau, fel y bydd gan Gymru weithlu mwy hyblyg o arbenigwyr pensiynau fydd yn medru rhannu gwaith yn ystod cyfnodau prysur a chyfnodau distawach.

**Cyllideb 2014**

Gwnaed cynigion arwyddocaol o ran diwygio pensiynau cyfraniad diffiniedig (DC) fel rhan o Gyllideb 2014, yn cynnwys cynlluniau i wneud diwygiadau sylfaenol i drethiant cynlluniau o'r fath, ac yn enwedig o ran yr hyblygrwydd i fedru cymryd lwmp swm fel dewis amgen i brynu blwydd-dal. Er efallai nad yw'r newidiadau hyn yn berthnasol yn uniongyrchol i'r CPLIL, bydd rhai newidiadau yn berthnasol, yn cynnwys cynnydd yn y swm bychan ellir ei gyfnewid, a'r posibilrwydd o stopio trosglwyddiadau o gynllun pensiwn gwasanaeth cyhoeddus i gynlluniau DC, ac eithrio mewn amgylchiadau cyfyngedig penodol. O ran y trosglwyddo, mae Trysorlys EM wedi lansio ymgynghoriad dan y teitl '*Freedom and choice in pensions*'.

Yn dilyn yr ymgynghoriad uchod, mae rheoliadau drafft ar lywodraethu'r cynllun wedi cael eu cyhoeddi, er mwyn sefydlu strwythur safonol ar draws cronfeydd CPLIL yn Lloegr a Chymru. Bwriad Llywodraeth San Steffan yw gweithredu'r darpariaethau yn y Deddf Pensiynau Gwasanaeth Cyhoeddus 2013 i orfodi cronfeydd i sefydlu byrddau pensiwn lleol i lywodraethu bob cronfa erbyn 1 Ebrill 2015.



Dafydd L. Edwards
**Pennaeth Cyllid**

